

Polisi'r Gymraeg

Cyflwyniad

Rydyn ni'n elusen sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, ac felly'n ystyried y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Rydyn ni'n ymdrechu i wneud cynnydd cyson tuag at wella'r hyn rydym yn ei gynnig i siaradwyr Cymraeg.

Er nad oes gofyniad statudol i elusen Gofal Canser Tenovus gydymffurfio a Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw darparu gwybodaeth a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl eraill. Os byddwn yn darparu gwasanaethau ar y cyd â sefydliadau sector cyhoeddus, byddwn yn cydymffurfio â'u Safonau'r Gymraeg nhw.

Mae Polisi'r Gymraeg hwn yn nodi ein hymrwymadau presennol i ddefnyddio'r Gymraeg a, lle bo'n briodol, gosod targedau i'n helpu i ddatblygu'r hyn rydym yn ei gynnig. Rydym yn monitro datblygiadau ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg yn gyson ac yn adolygu ein Polisi Iaith yn barhaus.

Ni fydd y polisi hwn yn effeithio ar ein gwaith yn Lloegr, a byddwn yn parhau i gyfathrebu â'r gynulleidfa hon yn Saesneg yn unig.

Hunaniaeth gorfforaethol a brandio

Rydym yn ymrwmo at gynnal ein delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Mae ein prif logo yn ddwyieithog a dyma'r dewis delfrydol ar gyfer ein holl gyfathrebiadau, ac eithrio cyfathrebiadau ar gyfer ein cynulleidfa Saesneg yn unig.

Mae hyn yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarchion, cardiau busnes ac arwyddion. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

Rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo hynny'n bosibl. Bydd unrhyw wasanaeth, ymgyrch neu fenter newydd yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer y Gymraeg.

Mae gwybodaeth am ein gwasanaethau cymorth, gan gynnwys taflenni a phecynnau croeso, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod gennym sawl aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar draws yr elusen, ni allwn sicrhau y bydd dewis iaith wrth ddefnyddio ein gwasanaethau cymorth bob tro. Yn enwedig gan fod llawer o rolau arbenigol o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod y Gymraeg yn sgil bwysig wrth recriwtio i'r rolau hyn.

Byddwn yn parhau i gydweithio ac annog pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn hyd at eu gorau gallu.

Cyfathrebiadau Allanol

- Gohebiaeth

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei derbyn yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg. Bydd hyn yn amlwg ar waelod negeseuon e-bost, papurau pennawd ac ar ein gwefan.

Gall unrhyw un sy'n ffonio ein prif swyddfa ofyn am aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, bydd y galwr yn cael y dewis o barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu aros i siaradwr Cymraeg ffonio yn ôl. Mae peiriant ateb ddwyieithog ar gael y tu allan i oriau gwaith.

- **Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus**

Rydym yn annog defnydd o'r Gymraeg yn ystod ein digwyddiadau a'n cyfarfodydd cyhoeddus. Yn ystod digwyddiadau, byddwn yn annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodynau er mwyn eu hadnabod yn hawdd.

- **Y Cyfryngau**

Rydyn ni'n ymrwymo i gyhoeddi datganiadau a deunydd i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog, lle bod modd.

Er y byddwn yn ymdrechu i gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd, ni all y broses gyfieithu gael ei chynnwys mewn ymateb i ddigwyddiadau adweithiol bob tro.

Byddwn yn ymgysylltu'n frwd â chyhoeddiadau Cymraeg ac yn chwilio am gyfleoedd cyfryngau ar sianeli cyfrwng Cymraeg. Bydd siaradwyr Cymraeg addas yn cael eu penodi i gynrychioli'r elusen.

- **Deunydd Hysbysebu a Marchnata**

Bydd unrhyw hysbysebu ar sianeli cyfrwng Cymraeg yn ymddangos yn ddwyieithog neu uniaith Gymraeg, yn ddibynnol ar y gofyniad.

Bydd y penderfyniad i gyfieithu ein hysbysebion awyr agored, argraffedig, arddangosfeydd a deunydd hyrwyddo yn cael ei ystyried fesul achos, yn seiliedig ar y lleoliad a'r gynulleidfa.

- **Gwefan**

Byddwn yn ceisio sicrhau bod tudalennau allweddol ein gwefan, gan gynnwys gwybodaeth am ein gwasanaethau a sut i gysylltu â ni, yn gwbl ddwyieithog. Mae'r ieithoedd yn ymddangos ar wahân, ac mae modd i'r defnyddiwr symud o un iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm iaith amlwg, ar frig y dudalen.

Byddwn yn mabwysiadu dull pragmatig tuag at gyfieithu tudalennau gwe eraill, gan ystyried hyd oes y dudalen a'r gynulleidfa.

- **Y Cyfryngau Cymdeithasol**

Er bydd y rhan fwyaf o bostiadau ar ein sianeli yn ymddangos yn Saesneg, byddwn yn ymgorffori'r Gymraeg yn ein naws a'n personoliaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Lle nad oes cyfyngiadau llym ar lythrennau, bydd ein henw yn ymddangos yn ddwyieithog ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.

Bydd unrhyw un sy'n cysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn derbyn ateb yn Gymraeg.

Staff a gwirfoddolwyr

Rydym yn cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil werthfawr a pherthnasol.

Yng Nghymru, pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu, neu pan fydd swydd wag bresennol yn cael ei hysbysebu, bydd asesiad yn cael ei wneud i ystyried a oes angen y Gymraeg yn benodol ar gyfer y swydd. Lle bo'n briodol, bydd sgiliau Cymraeg yn cael eu hysbysebu yn ddymunol neu hanfodol, yn seiliedig ar benderfyniad y rheolwr sy'n cyflogi.

Bydd swyddi Cymraeg hanfodol yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog.

Os yw'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd a bod angen ar gyfer hyfforddiant yn cael ei nodi, byddwn yn darparu hyfforddiant perthnasol.

Adroddiadau

Byddwn yn archwilio ein gallu iaith yn fewnol ac yn cofnodi ein cynnydd yn erbyn y polisi.

Llywodraethu

Er mwyn cyflawni ein hymrwymadau i Bolisi'r Iaith Gymraeg, bydd gan bennaeth adran drosolwg strategol o'n cynlluniau a chyfrifoldeb dros ei weithredu, hyrwyddo ac adolygu. Bydd yr unigolyn yn rhan o weithgor tactegol ehangach a fydd yn cyfarfod yn chwarterol i sicrhau gweithrediad parhaus o'r polisi hwn yn ogystal â thynnu sylw at gyfleoedd i wella.